Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Croeserw
**Bryn Siriol**
**Cymer**
**Port Talbot**
**SA13 3PL**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Croeserw

Mae Ysgol Gynradd Croeserw yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae 159 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 17 o ddisgyblion meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Mae saith dosbarth oedran cymysg, ac un dosbarth un oedran. Mae'r rhain yn cynnwys dau ddosbarth adnoddau'r awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw tua 61%. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 18%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 35% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ychydig o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae bron pob un o'r disgyblion o dras gwyn Prydeinig ac yn siarad Saesneg gartref. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae Ysgol Gynradd Croeserw, ynghyd ag Ysgol Gynradd Glyncorrwg, Ysgol Gynradd Cymer Afan ac Ysgol Gynradd Pen Afan, yn rhan o Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf, a ffurfiwyd ym mis Medi 2013. Roedd y ffederasiwn yn un o bum ysgol yn flaenorol, ond lleihawyd hyn i bedair ysgol gynradd ar ôl cau Ysgol Gyfun Cymer Afan ym mis Gorffennaf 2019.

Dechreuodd pennaeth y ffederasiwn yn ei swydd ym mis Medi 2019; roedd wedi bod yn arweinydd y sector cynradd er 2013. Mae dysgwr arweiniol gan bob ysgol gynradd, sy'n gyfrifol am gynnal yr ysgol o ddydd i ddydd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae pob un o'r staff yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol i ddisgyblion, ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod ganddynt lefelau lles uchel. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn mwynhau ei hamgylchedd croesawgar a chynhwysol. Mae strategaethau i wella ymddygiad yn llwyddiannus wrth sicrhau bod disgyblion yn ymddwyn yn dda amser cinio ac amser egwyl, a'u bod yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Fodd bynnag, nid yw eu medrau datrys problemau wedi'u datblygu'n ddigonol, ac ni chânt gyfleoedd digonol i ddatblygu medrau fel gwydnwch a dyfalbarhad.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sy'n is na'r disgwyl ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh (technoleg gwybodaeth a chyfathrebu). Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n cyffroi ac yn ennyn diddordeb disgyblion, ond nid ydynt bob amser yn addasu tasgau a gweithgareddau yn ddigon da i weddu i anghenion disgyblion o bob gallu. O ganlyniad, nid yw pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud. Mae darpariaeth yn y dosbarthiadau adnoddau dysgu yn gryfder yn yr ysgol. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau hyn yn gwneud cynnydd da, ac yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Ers sefydlu'r ffederasiwn ysgolion cynradd ym mis Medi 2019, mae'r pennaeth a'r dysgwr arweiniol yng Nghroeserw, wedi parhau i ganolbwyntio ar les disgyblion fel blaenoriaeth bwysig. Mae arweinwyr yr ysgol yn casglu ystod eang o wybodaeth am gyflawniadau disgyblion, ac yn defnyddio hyn yn dda i gynllunio ymyriadau ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Fodd bynnag, nid yw eu gweithgareddau monitro a gwerthuso yn canolbwyntio'n ddigon da ar dystiolaeth o arferion ystafell ddosbarth, gan gynnwys ansawdd yr addysgu a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Megis dechrau datblygu y mae trefniadau i rannu arfer orau mewn addysgu, ac mewn darpariaeth ar gyfer medrau, ar draws y ffederasiwn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Gwella addysgu a dysgu fel bod pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud

A2 Gwella darpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, yn enwedig mewn darllen

A3 Datblygu medrau dysgu'n annibynnol y disgyblion, gan gynnwys eu gallu i resymu, datrys problemau a gwella eu gwaith eu hunain

A4 Cryfhau cyfraniadau arweinwyr ar bob lefel ar draws y ffederasiwn, yn enwedig at waith gwerthuso a gwella

A5 Gwella presenoldeb a phrydlondeb

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dechrau yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd sydd ymhell islaw'r lefelau sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da o ran bodloni eu targedau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion, ac ar ei gilydd. Mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn gwrando â mwynhad ar stori 'We're Going on a Bear Hunt'. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn gwrando'n effeithiol ar ddisgyblion eraill yn eu grŵp wrth gynllunio sut i gynnal arbrawf teg mewn ymchwiliad gwyddoniaeth. Mae medrau siarad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn wan pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Fodd bynnag, maent yn datblygu'r medrau hyn yn briodol wrth iddynt symud trwy'r cyfnod sylfaen. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn disgrifio deinosor coll, gan roi manylion am ei hymddangosiad, a lle cafodd ei gweld ddiwethaf. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn siarad yn hyderus. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn esbonio sut maent yn defnyddio'r sgrin werdd i wella eu hadroddiadau newyddion. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio geirfa gyfyngedig wrth siarad, ac mae hyn yn effeithio'n negyddol ar eu dealltwriaeth wrth ddarllen, ac yn cyfyngu ar eu medrau ysgrifennu.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth briodol o seiniau llythrennau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r medrau hyn i'w helpu i ddarllen geiriau syml. Fodd bynnag, ni allant gymhwyso'r medrau hyn i ddarllen geiriau hirach neu eiriau anghyfarwydd, ac nid oes gan leiafrif ohonynt eirfa olwg ddigon eang. O ganlyniad, nid ydynt yn darllen yn gywir, ac maent yn colli ystyr yr hyn y maent yn ei ddarllen wrth iddynt ganolbwyntio ar geisio adnabod geiriau unigol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu medrau darllen. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 sy'n fwy abl yn dod o hyd i wybodaeth mewn llyfrau ffeithiol trwy sganio'r testun am eiriau penodol. Mae llawer o ddarllenwyr ym Mlwyddyn 6 yn darllen yn gywir. Maent yn mwynhau darllen, ac yn gallu enwi eu hoff awduron, gan gynnwys Enid Blyton a Michael Morpurgo. Fodd bynnag, ar draws y cyfnod allweddol, nid yw medrau darllen a deall llawer o ddisgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol. Maent yn darllen ar goedd yn rhugl, ond yn ei chael yn anodd deall yn llawn y testunau y maent yn eu darllen.

Gall llawer o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn ffurfio llythrennau cyfarwydd, fel y rhai sydd yn eu henw. Ym Mlwyddyn 1, maent yn ffurfio siapiau llythrennau yn gywir, ac erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu mewn brawddegau syml, er enghraifft i greu taflenni gwybodaeth am blanedau. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn defnyddio atalnodi brawddeg sylfaenol, gan gynnwys priflythrennau ar ddechrau brawddegau, ac atalnodau llawn ar y diwedd. Wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn dechrau deall sut i ysgrifennu gan ddefnyddio ystod gynyddol o ffurfiau. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4, mae disgyblion yn ysgrifennu set o reolau ynglŷn â defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn ysgrifennu llythyrau ynghylch bod yn faciwî, ac adroddiadau papur newydd am

Anne Frank. Ar draws yr ysgol, mae medrau sillafu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Fodd bynnag, maent yn ysgrifennu gan ddefnyddio ystod gyfyngedig o eirfa. Nid yw llawer ohonynt yn defnyddio atalnodi yn gyson dda yn annibynnol. Ar draws yr ysgol, mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion wedi gwella.

Mae medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn canu caneuon a rhigymau sy'n eu helpu i ddysgu geiriau ac ymadroddion Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 5, mae llawer ohonynt yn ymateb i orchmynion Cymraeg syml yn briodol, er enghraifft wrth ateb y gofrestr. Defnyddiant eirfa gyfarwydd syml i ofyn cwestiynau yn Gymraeg, er enghraifft 'beth wyt ti'n hoffi i'w fwyta?'. Mae gan bron bob un ohonynt agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau rhif addas. Yn y dosbarth derbyn, defnyddiant y rhain yn briodol, er enghraifft i gyfrif blociau i fesur hyd bochdew. Ym Mlwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn adnabod rhifau i fyny i gant, ac yn eu rhoi yn eu trefn o'r lleiaf i'r mwyaf yn gywir. Mae mwyafrif ohonynt yn adnabod ac yn nodi darnau arian yn gywir, ac mae ychydig iawn ohonynt yn adio gwerthoedd o fewn punt. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn briodol, ar y cyfan, i resymu a datrys problemau yn gysylltiedig â'u gwaith testun. Maent yn cyfrifo faint o fwyd y byddai teulu'n ei gael gyda cherdyn dogni yn ystod y rhyfel, a'r pellter y teithiodd faciwîs i'w cartrefi newydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, mae medrau rhesymu, datrys problemau a rhif y rhan fwyaf o ddisgyblion ar lefel is na'r disgwyl ar draws yr ysgol.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau TGCh priodol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron llechen, er enghraifft i dynnu lluniau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn creu pictogramau yn llwyddiannus i ddangos y gwahanol anifeiliaid anwes sy'n perthyn i ddisgyblion yn y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau TGCh yn dda i gyfleu gwybodaeth, er enghraifft llunio cyflwyniadau am Tutankhamen ac ysgrifennu llythyrau cais am rôl prif ferch. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud animeiddiadau syml, er enghraifft i ddangos sut mae'r ddaear yn symud o gwmpas yr haul, ac apiau rhaglenni i wneud patrymau syml. Fodd bynnag, nid yw defnydd disgyblion o ystod ehangach o fedrau TGCh, fel trin data, wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn ei hamgylchedd gofalgar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod at bwy i droi os byddant yn ddigalon neu'n poeni, ac maent yn hyderus y bydd staff yn delio â'u pryderon yn sensitif. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth, ac o gwmpas yr ysgol.

Ceir perthnasoedd gwaith cryf rhwng disgyblion a staff, yn seiliedig ar barch ar y ddwy ochr. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o hawliau plant, ac maent yn hyrwyddo'r rhain yn dda ar draws yr ysgol, er enghraifft trwy ddylunio posteri a siarad yng ngwasanaethau'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i aros yn iach. Maent yn gwybod bod ymarfer corff yn dda iddynt, ac am y math o fwydydd y dylent eu bwyta. Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd yfed dŵr trwy gydol y dydd, ac yn bwyta ffrwythau yn yr ysgol. Mae disgyblion sy'n cael brecwast yn yr ysgol yn gwneud dewisiadau iach, gan gynnwys grawnfwydydd a llaeth. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau gweithgarwch corfforol amser chwarae, ac mae llawer ohonynt yn mynychu clybiau a gweithgareddau allgyrsiol, fel Clwb Cadw'n Heini.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Maent yn deall pwysigrwydd peidio â rhannu eu cyfrineiriau a bod yn ofalus i beidio â rhannu gwybodaeth bersonol.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, nid yw presenoldeb disgyblion yn cymharu'n dda â phresenoldeb disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyrraedd yn hwyr yn barhaus ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Fodd bynnag, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mae disgyblion yn cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol trwy ymgymryd â rolau arwain trwy amrywiaeth o grwpiau disgyblion, fel yr eco-bwyllgor a'r Criw Cymraeg. Mae'r rolau hyn yn dechrau cael effaith ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau o'r cyngor ysgol wedi dechrau gwella ardaloedd awyr agored yr ysgol. Bu disgyblion yn codi arian i brynu adnoddau ac offer newydd ar gyfer maes chwarae'r ysgol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ba mor dda y mae disgyblion yn cydweithredu ac yn chwarae â'i gilydd yn ystod amseroedd egwyl ac amser cinio. Mae arweinwyr digidol yn darparu cymorth ar gyfer dosbarthiadau eraill trwy sicrhau bod offer technoleg yn barod ar gyfer ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth, ac mae aelodau'r eco-bwyllgor yn helpu cadw amgylchedd yr ysgol yn rhydd o sbwriel. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cyfrannu syniadau at beth maent yn ei ddysgu, a sut, ond megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu, ac yn ymgymryd â thasgau ystafell ddosbarth â brwdfrydedd. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn rhoi cyflwyniadau diddorol i'w cyfoedion am eu hymweliad â Techniquest yn gysylltiedig â'u testun gwyddoniaeth. Maent yn rhannu eu gwaith ac yn gwrando'n astud ar ei gilydd, ac mae ychydig iawn ohonynt yn darparu adborth i ddisgyblion eraill ar yr hyn y gallant ei wneud i wella. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dechrau datblygu medrau sy'n eu galluogi i wynebu heriau â hyder, ond nid yw eu medrau rhesymu a datrys problemau wedi'u datblygu'n ddigonol, ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol mewn parau a grwpiau. Ym Mlynyddoedd 4 a 5, mae disgyblion yn cydweithio'n dda wrth gynllunio sut i gynnal prawf teg mewn ymchwiliad gwyddoniaeth. Maent yn ystyried cyfraniadau disgyblion eraill ac yn mabwysiadu gwahanol rolau wrth gwblhau'r gweithgaredd. Er enghraifft, mae un disgybl yn cymryd mesuriadau, tra bydd disgybl arall yn defnyddio gliniadur i gofnodi'r rhain mewn tabl.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae llawer o athrawon yn cyflwyno gwersi sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus yn eu dysgu. Maent yn cyflwyno testunau newydd mewn ffordd fywiog a dychmygus, ac yn gwneud defnydd effeithiol o ymweliadau addysgol fel symbyliad ar gyfer dysgu. Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn ymweld â Marina Abertawe fel

rhan o'u testun yn ymwneud â theithio, ac mae disgyblion hŷn yn ymweld ag Eglwys Santes Agnes i ddysgu am fedyddio. Mae'r ymweliadau hyn yn llwyddo i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r ardal leol yn effeithiol.

Mae staff yn gwneud defnydd priodol o sawl cynllun gwaith i sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn elwa ar gwricwlwm eang. Mae cynllunio yn ystyried fframweithiau cenedlaethol, ac yn sicrhau bod cyfleoedd priodol i ddisgyblion atgyfnerthu medrau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn ystyried y camau dilyniant yn y cynlluniau hyn. Nid ydynt yn ymgorffori ystod ddigon eang o fedrau yn eu gweithgareddau ystafell ddosbarth i ddiwallu anghenion disgyblion o bob gallu, yn enwedig o ran datblygu eu medrau rhesymu a datrys problemau.

Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu eu dealltwriaeth o ffoneg yn y cyfnod sylfaen a sesiynau darllen dan arweiniad yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw'r sesiynau hyn mor effeithiol ag y gallent fod o ran datblygu medrau darllen disgyblion. Mae sesiynau ffoneg yn canolbwyntio gormod ar ddisgyblion yn cofnodi llythrennau a seiniau ar daflenni gwaith, ac nid yw testunau a ddefnyddir ar gyfer darllen dan arweiniad yn gweddu'n dda i alluoedd darllen disgyblion bob amser. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn ysgrifennu ffeithlenni am ofodwyr enwog, ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn ysgrifennu cofiannau am wyddonwyr enwog.

Rhoddir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, ac maent yn cymhwyso'r rhain yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Ym Mlwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o arwynebedd a pherimedr i ddylunio gerddi ar gyfer canolfan NASA i ofodwyr dan hyfforddiant. Mae darpariaeth i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau TGCh yn briodol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio ar gyfer datblygu medrau bob amser yn adeiladu'n systematig ar ddysgu disgyblion wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r ysgol.

Mae athrawon yn trefnu darpariaeth addas ar gyfer disgyblion yn y cyfnod sylfaen. Mewn llawer o ddosbarthiadau, ceir cydbwysedd rhwng gweithgareddau â ffocws i helpu disgyblion i ddatblygu medrau, ac amser iddynt weithio yn annibynnol i atgyfnerthu'r rhain. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr holl ddosbarthiadau. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn treulio gormod o amser ar weithgareddau dan gyfarwyddyd oedolyn, ac ni chânt ddigon o gyfleoedd i ddysgu trwy chwarae gweithredol neu i gyfarwyddo eu dysgu eu hunain. Nid yw darpariaeth yr ysgol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae bron pob un o'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu yn creu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda disgyblion. Defnyddiant strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad da, ac mae hyn yn helpu creu amgylchedd dysgu digynnwrf a phwrpasol. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau i ymgysylltu â disgyblion, gan gynnwys cyfleoedd iddynt weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau bach a pharau. Mae llawer o athrawon yn defnyddio cwestiynau yn effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion ac ymestyn eu meddwl. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion o bob gallu yn cwblhau'r un tasgau a gweithgareddau. Mae hyn yn arwain at ddiffyg her, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n fwy abl. O ganlyniad, dros gyfnod ac o fewn

sesiynau addysgu unigol, nid yw'r disgyblion hyn yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent. Mae bron pob un o'r cynorthwywyr addysgu yn gweithio'n effeithiol gyda grwpiau a disgyblion unigol ar ystod eang o raglenni ymyrraeth.

Ceir darpariaeth briodol i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae'r ysgol wedi codi proffil y Gymraeg yn llwyddiannus, sy'n arwain at gyfleoedd cynyddol i ddisgyblion siarad Cymraeg. O ganlyniad, mae medrau Cymraeg disgyblion yn gwella. Maent yn datblygu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwersi a sefyllfaoedd llai ffurfiol fel amser chwarae. Ceir darpariaeth briodol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau TGCh.

Nid yw adborth athrawon i ddisgyblion yn rhoi arweiniad clir iddynt ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. O ganlyniad, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion bob amser yn deall y camau nesaf yn eu dysgu. Yn aml, mae hyn yn arwain at ailadrodd gwaith ar safon debyg. Er enghraifft, wrth ailddrafftio gwaith ysgrifenedig, mae eu darnau gorffenedig yr un fath â'u gwaith gwreiddiol, neu'n llai cywir, mewn ychydig o achosion. At ei gilydd, nid yw athrawon yn cynorthwyo disgyblion yn ddigon da i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u cynnydd eu hunain.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar, lle mae oedolion a disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd mewn amgylchedd digynnwrf a chyfeillgar. Mae staff a disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn dangos lefelau uchel o ofal a phryder at ei gilydd. O ganlyniad, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth yr ysgol i gefnogi lles disgyblion yn nodwedd gref yn ei gwaith. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w hanghenion cymdeithasol ac emosiynol trwy ddarparu cyfle iddynt elwa ar sesiynau cwnsela yn yr ysgol, er enghraifft. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn darparu sesiynau ymyrraeth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio'n dda ar feithrin mwy o wydnwch wrth ddelio ag emosiynau a gorbryderon dwysach. Bu ffocws ysgol gyfan yn ddiweddar ar wella ymddygiad yn llwyddiannus. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cymhwyso ymagweddau cyson at hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac ar y maes chwarae.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda iawn ar gyfer anghenion disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig trwy ei darpariaeth prif ffrwd a'r dosbarthiadau adnoddau dysgu, fel ei gilydd. Mae athrawon yn nodi'n gynnar y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Mae athrawon yn gwybod pa ymyriadau sydd fwyaf priodol i ddiwallu anghenion ymddygiad ac anghenion dysgu pob disgybl unigol. Defnyddiant y rhain yn ofalus i fynd i'r afael â'u hanghenion academaidd a'u hanghenion lles. Mae staff yn gweithio'n effeithiol gyda gwasanaethau cymorth fel y therapyddion lleferydd ac iaith, i sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn defnyddio strategaethau effeithiol i gynorthwyo'r rhai ag anghenion emosiynol, fel defnyddio sesiynau chwarae i helpu datblygu medrau cymdeithasol disgyblion. Mae'r ddarpariaeth a wna'r ysgol ar gyfer disgyblion yn y

dosbarthiadau adnoddau dysgu yn gryfder yn yr ysgol. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau hyn yn datblygu annibyniaeth ac yn integreiddio'n dda mewn dosbarthiadau prif ffrwd, pan fydd yn briodol. Gwnânt gyfraniadau gwerthfawr at fywyd a gwaith yr ysgol trwy ymgymryd â rolau arwain, er enghraifft rôl y prif fachgen.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer olrhain cynnydd a lles disgyblion. Mae athrawon yn asesu medrau disgyblion yn gywir pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, ac yn monitro eu cynnydd wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn dadansoddi ystod o wybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion yn rheolaidd i wirio'r cynnydd a wna disgyblion mewn darllen, sillafu a rhifedd. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i gynllunio ymyriadau ar gyfer disgyblion sy'n gwneud cynnydd arafach na'r disgwyl.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn cynnal perthynas waith gadarnhaol â rhieni. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i rieni ddysgu sut i gefnogi dysgu eu plant, er enghraifft trwy eu helpu i ddeall sut maent yn addysgu darllen. Mae athrawon yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am y cynnydd y mae eu plant yn ei wneud trwy gael cyfarfodydd rheolaidd â nhw a thrwy ddarparu adroddiadau diwedd blwyddyn ar eu cyfer. Mae ychydig o rieni yn aelodau gweithgar o'r gymdeithas rieni ac yn helpu trefnu gweithgareddau fel ffeiriau a digwyddiad diwedd blwyddyn ar gyfer disgyblion sy'n gadael Blwyddyn 6.

Mae staff yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am agweddau ar waith yr ysgol, er enghraifft trwy berthyn i un o'i grwpiau arweinyddiaeth disgyblion. Mae athrawon yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau bywyd gwerth chweil, fel dysgu sut i wneud cais llwyddiannus i fod yn brif ferch neu'n brif fachgen yr ysgol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar y cwricwlwm a gwneud penderfyniadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut, yn gyfyngedig.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r siop ffrwythau yn gwerthu bwydydd iach, gan gynnwys afalau ac orennau, i ddisgyblion amser chwarae. Mae'r ysgol yn cefnogi banc bwyd lleol ac mae hyn yn darparu cyfleoedd i staff siarad â disgyblion am faeth.

Mae gwasanaethau rheolaidd yr ysgol yn darparu cyfleoedd da i staff ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol a moesol disgyblion. Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio storïau o'r Beibl i helpu disgyblion i fyfyrio ar faterion pwysig mewn cymdeithas heddiw, fel yr angen i bawb allu cael dŵr glân. Mae staff a disgyblion yn defnyddio gwasanaethau i hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol, ac annog dyhead, er enghraifft trwy drafod sut dylai disgyblion fod yn falch o'u doniau.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion. Mae athrawon yn trefnu ymweliadau â theatrau lleol. Er enghraifft, ymwelodd disgyblion yn y cyfnod sylfaen â'r theatr yn Abertawe i wylio perfformiad o'r 'Butterfly Hunter'. Mae aelodau o gôr yr ysgol yn canu mewn digwyddiadau cymunedol, fel ymuno â'r Maer lleol i ddathlu'r Nadolig yn y ganolfan gymunedol leol. Mae hyn yn ymestyn eu dealltwriaeth o bwysigrwydd perthyn i'r gymuned leol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Ers ymgymryd ag arweinyddiaeth gyffredinol y ffederasiwn ym mis Medi 2019, mae'r pennaeth wedi gweithio'n llwyddiannus i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer

sicrhau lles, a meithrin disgyblion ar draws y ffederasiwn. Mae'r weledigaeth hon yn cynnwys ymrwymiad i ddiwallu anghenion corfforol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae'r gwaith hwn yn effeithiol ac yn sicrhau bod pob un o'r ysgolion yn elwa ar awyrgylch digynnwrf lle mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu â'u dysgu yn gadarnhaol.

Mae'r weledigaeth i hyrwyddo cydweithio rhwng yr ysgolion yn datblygu'n dda, ac yn dod yn ddylanwadol mewn nifer o ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio ar y cyd, ymagweddau cyson at ddiogelu disgyblion ac ymagweddau cyffredin at reolaeth ariannol. Mae'r diwylliant o rannu, sy'n datblygu, yn fuddiol i staff a disgyblion. Er enghraifft, mae'n sicrhau bod disgyblion yn cael ystod debyg o brofiadau dysgu, ac yn arwain effeithlonrwydd ariannol fel bod digwyddiadau fel ymweliadau addysgol yn hyfyw a fforddiadwy.

Yn ogystal â'r pennaeth, mae uwch aelod o staff ym mhob ysgol. Mae'r aelodau staff hyn yn ymgymryd â rôl dysgwyr arweiniol. Maent yn cymryd cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am arwain safleoedd yr ysgol yn absenoldeb y pennaeth. Yn ychwanegol, maent yn arwain ac yn monitro cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer parau o grwpiau blwyddyn ar draws y ffederasiwn. Mae hyn yn fuddiol o ran hyrwyddo cydweithio, a meithrin ethos tîm. Fodd bynnag, o ganlyniad i'w ffocws ar arwain grwpiau oedran penodol ar draws y ffederasiwn, mewn gormod o achosion, nid oes gan ddysgwyr arweiniol ddealltwriaeth ddigon cryf o ansawdd y ddarpariaeth na safonau a chynnydd disgyblion yn eu hysgolion eu hunain. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr arweiniol wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr at fedrau proffesiynol cydweithwyr, er enghraifft trwy sicrhau defnydd cyson o broffil y cyfnod sylfaen pan fydd disgyblion yn ymuno â phob ysgol, a thrwy godi proffil y Gymraeg ar draws y ffederasiwn.

Mae'r dysgwr arweiniol yn Ysgol Croeserw yn gyfrifol am y strategaeth i wella lles ar draws y ffederasiwn. O dan ei arweinyddiaeth, mae staff yn Ysgol Croeserw yn rhoi amrywiaeth o ymyriadau ar waith i gefnogi a gwella medrau cymdeithasol disgyblion, a'u lles emosiynol, yn llwyddiannus. Maent yn olrhain y cynnydd a wnânt yn effeithiol i sicrhau bod yr ymyriadau yn diwallu anghenion disgyblion unigol. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion. Er enghraifft, mae canolbwyntio ar wella profiadau disgyblion ar iard yr ysgol amser cinio wedi arwain at welliannau mewn ymddygiad. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu bod disgyblion yn dawelach ac yn fwy parod i ddysgu yn ystod y prynhawn.

Mae arweinwyr yr ysgol yn casglu cryn dipyn o wybodaeth am gynnydd disgyblion mewn system olrhain electronig. Mae'r pennaeth yn defnyddio hyn a gwybodaeth arall, er enghraifft tystiolaeth o deithiau dysgu, i nodi ychydig o feysydd priodol i'w gwella ar draws y ffederasiwn. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i wella medrau Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r pennaeth a'r dysgwyr arweiniol yn ystyried tystiolaeth uniongyrchol arall yn ddigon da bob amser, fel ystod ac ansawdd y gwaith yn llyfrau disgyblion ac mewn gwersi wrth werthuso darpariaeth a safonau. O ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn nodi diffygion pwysig yn natblygiad medrau disgyblion na chyfleoedd i wella addysgu a phrofiadau dysgu yn ddigon da. Dros gyfnod, nid yw arweinwyr wedi gwneud defnydd digon da o enghreifftiau o addysgu a dysgu hynod effeithiol sy'n bodoli o fewn y ffederasiwn i wella arfer broffesiynol, a chodi safonau. At ei gilydd, nid oes gan y ffederasiwn strategaeth glir i wella'r addysgu ym mhob ysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Caiff darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ei chydlynu'n effeithiol. Mae gan bob ysgol arweinydd effeithiol ar gyfer darpariaeth anghenion addysgol arbennig. Maent wedi datblygu diwylliant cryf o rannu arfer, adnoddau a chyngor ymarferol. Mae athrawon a staff cymorth yn elwa'n dda ar hyn, ac mae'n sicrhau bod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu yn fuddiol. Maent yn sicrhau bod gan yr aelodau staff hyn y medrau i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd trwy ystod o strategaethau ymyrraeth defnyddiol. Mae hyn yn hynod werthfawr o ran ymestyn y ddarpariaeth anogaeth ar gyfer disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn ceisio darparu addysg o safon uchel yng Nghwm Afan Uchaf. Maent yn darparu cymorth a her briodol ar gyfer arweinwyr y ffederasiwn, er enghraifft o ran dyrannu cyllid o'r gyllideb i bob un o'r ysgolion. Maent yn gwybod beth yw blaenoriaethau'r ffederasiwn ar gyfer gwella ac mae ganddynt brosesau addas ar waith i fonitro cynnydd tuag at y nodau hyn. Er enghraifft, mae llywodraethwyr yn edrych ar waith disgyblion ac yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu. Maent yn cyfrannu'n briodol at y diwylliant cydweithio sy'n datblygu, er enghraifft trwy gynorthwyo'r ffederasiwn i ddatblygu polisïau a phrosesau ar y cyd ar gyfer diogelu.

Mae arweinwyr yr ysgol yn dyrannu cyllid yn briodol i gefnogi gwelliant yr ysgol. Gwnânt ddefnydd addas o gyllid ychwanegol o'r grant datblygu disgyblion i ariannu staff a rhaglenni ymyrraeth i wella lles a medrau sylfaenol disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/03/2020